

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 13.07.16 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Geraint Edwards (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Ian Williams, Eleri Williams, Avril Garrod, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Micah, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Karen Shellis.
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd cofnodion o'r cyfarfod blaenorol (08.06.16) fel rhai cywir.
Cynnig – Huw Davies **Eilio** – Kevin Goodchild **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (08.06.16):**
Materion Cymunedol - llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn ateb ymholiadau'r cyfarfod diwethaf:
 - a) **Biniau Ysbwriel ag Ailgylchu yn Rhoslefain** – Gyngor Gwynedd yn ymwybodol fod y biniau gweddilliol yn cael eu camddefnyddio gan rai o drigolion yr ardal ac ymwelwyr dros gyfnod yr haf, ac er mwyn dygymod a hyn, mae Cyngor Gwynedd yn darparu casgliadau ychwanegol. Gan nad oes digon o le i ychwanegu mwy o focsys glas ailgylchu ar y safle, mae Ffrâm Ailgylchu wedi ei leoli yno yn ddiweddar ac mae'r bocsys ailgylchu yma yn derbyn casgliad wythnosol.
 - b) **Gwrych ar ochr y ffordd yn Rhoslefain** - Arolygwr Gyngor Gwynedd wedi bod allan yn asesu'r lleoliad. Cytunwyd fod angen torri'r gwrych yn ôl cymaint ag sydd bosib. Mae'r Arolygwr wedi rhoi cyfarwyddyd i'r gweithlu i ymgymerid â'r gwaith.
 - c) **Tyfiant o safle'r Hen Ysgol Gynradd yn Llwyngwril** - Arolygwr Gyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r gordyfiant yma ac wedi trosglwyddo'r cwyn i'r Gwasanaeth Rheoleiddio.
 - d) **Cae Chwarae safle'r Hen Ysgol, Llwyngwril** - Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais fod ffermwr lleol yn cael caniatâd i dorri'r gwair ar y safle ac wedi ei anfon i sylw'r Gwasanaeth Eiddo, iddynt ymateb yn uniongyrchol.
5. **Gohebiaeth:**
 - a) **Shelter Cymru:** cais am gyfraniad ariannol → Cyngor Cymuned ddim am gefnogi'r cais yma.
 - b) **Dail Dysynni:** cais am gyfraniad ariannol -
Penderfyniad → pawb yn gytûn i gefnogi'r cais yma. **£50.00. Cynnig:** Eleri Williams **Eilio:** Avril Garrod.
 - c) **Yswiriant AON:** llythyr yn cadarnhau fod y polisi wedi ei adnewyddu – 01.06.2016.
 - d) **Playsafe LTD:** Adroddiad o Archwiliad ROSPA ar y Cae Chwarae yn Llwyngwril wedi ei dderbyn. Adroddiad boddhaol ar y cyfan, ond bod rhai o'r offer yn dechrau rhydu, a bod boltt ar goll ar un o'r offer.
Penderfyniad → Huw Davies a Geraint Edwards wedi cynnig "cael golwg".
 - e) **Cyngor Gwynedd:**
 - I. Llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau y bydd Arolygwr Priffyrdd yn cysylltu â Mr Pugh, Henblas, er trafod y broblem gyda'r dŵr yn rhedeg lawr o'r ffordd fawr tuag at ei eiddo.
 - II. Ymchwiliad Gorfodaeth Stryd – ffurflen wedi ei chwblhau i'w dychwelyd i Gyngor Gwynedd.
 - III. **Biniau Halen** – llythyr yn cadarnhau costau Cyngor Gwynedd i barhau i'w gwasanaethu = £80/bin.
Penderfyniad → llythyr i'w yrru yn cadarnhau fod y Cyngor Cymuned yn derbyn y cynnig yma.

IV. Toiledau Cyhoeddus yn y Gymuned – mewn ymgais i osgoi cau'r toiledau cyhoeddus, Cyngor Gwynedd angen gwybod os yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon cyfrannu'n ariannol a sefydlu partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd, er mwyn cynnal y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus presennol yn y pentref am 2017/18. Wedyn bydd rhaid ystyried cyfleoedd pellach - un ai ymestyn y bartneriaeth i'r flwyddyn ddilynol neu, datblygu cynlluniau i drosglwyddo'r cyfrifoldeb am y ddarpariaeth toiledau cyhoeddus i'r Cyngor Cymuned yn llwyr.

Cost y cyfraniad ariannol blynyddol i Gyngor Cymuned Llangelynnin bartneriaethu gyda Chyngor Gwynedd am 2017/18 fydd £2,000.00 y tymor (toiledau ar agor am 6 mis y flwyddyn).

Taflen i'w chwblhau a'i dychwelyd erbyn 01.08.16.

Penderfyniad → anfon y daflen yn ôl yn datgan diddordeb mewn partneriaethu, ond fod £2,000 yn ormod i gyfrannu i gadw'r toiledau ar agor am 6 mis y flwyddyn, a bod y Cyngor Cymuned angen mwy o amser i drafod y matter yma.

Louise Hughes wedi cynnig cysylltu ag Anwen Davies, Cyngor Gwynedd.

6. Materion Cynllunio: Dim

7. **Adroddiad Ariannol:** Derbyniwyd Adroddiad Mis Mehefin 2016 yn gywir.

Cynnig – Huw Davies **Eilio** – Ian Williams **Arwyddwyd** – Geraint Edwards.

- Adroddiad wedi ei gyflwyno i'r aelodau o'r Taliadau a Derbyniadau Tebygol am yn flwyddyn nesaf 2016-17.
- Adroddiad wedi ei gyflwyno i'r aelodau o'r cyfraniadau ariannol i wahanol fudiadau dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

• **Rheoliadau Ariannol Newydd – Mehefin 2016:** Rheoliadau Ariannol y Cyngor Cymuned angen ei adolygu.

Penderfyniad → Clerc i adolygu'r Rheoliadau Ariannol presennol yn barod i gael ei mabwysiadu.

a) Rhodd o £1,000.00 i Bwyllgor y Ganolfan, Llwyngwril. Penderfyniad wedi ei wneud eisoes fod y Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad ariannol yn flynyddol tuag at Y Ganolfan.

Dyddiad y cyfarfod = 10.02.16, cyfeirnod y cofnodion = 7b.

→ siec i'w yrru i Bwyllgor Y Ganolfan.

b) ROSPA – anfoneb wedi ei dderbyn am yr Archwiliad Blynyddol y Cae Chwarae = £92.40

→ siec i'w anfon i Playsafe Ltd.

c) Siec wedi ei dderbyn gan Scottish Power = £17.08.

d) Llythyr wedi ei dderbyn gan PCC Llangelynnin, i ddiolch am y rhodd o £500.00 gan y Cyngor Cymuned.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:

Adroddodd Eleri Williams fod Llywodraethwyr Ysgol Craig y Deryn wedi cyfarfod yn ddiweddar.

Problem hefo'r tô yn gollwng yn dal i barhau. Adroddodd hefyd fod y cae chwarae yn wlyb ofnadwy ac i gael ei ail-ddraenio.

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Derbyniwyd adroddiad gan Louise Hughes.

10. Unrhyw Fater Arall:

a) **Gordyfiant o ardd Bodlondeb, yn culhau'r ffordd** → Avril Garrod wedi cynnig cael gair hefo'r perchennog.

b) **Chwyn ar y palmentydd ac ochr y ffyrdd yn y pentref**

c) **Bin ysbwriel ger safle'r hen ysgol yn Llwyngwril yn gorlifo efo ysbwriel ac angen eu wagu**

Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i'w gwneud yn ymwybodol o'r ddau fater yma.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 14.09.16 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**